## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Minutes of a meeting of the Pwyllgor Archwilio Perfformiad held in Conference Room 1a, County Hall, Ruthin on Dydd Gwener, 24 Mai 2013 at 10.00 am.

### PRESENT

Cynghorwyr  William Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Dewi Owens, Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands

### ALSO PRESENT

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (JW), Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol (TW), Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau (CM), Rheolwr Gwasanaeth Gofal Iechyd Cefndy/Datblygu Busnes (DHL), Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO), Swyddfa Archwilio Cymru (GB) Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen a/ac David Simmons

### 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Roedd y Cynghorydd A Roberts wedi cylchredeg ei CV i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod. Enwebwyd y Cynghorydd Roberts ac fe'i eiliwyd ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd, ni dderbyniwyd enwebiadau eraill a:

***PENDERFYNWYD*** *- y dylid penodi'r Cynghorydd A. Roberts fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad am y flwyddyn nesaf*.

Yn absenoldeb y cadeirydd, y Cynghorydd D. Simmons, yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd A. Roberts gadeiriodd y cyfarfod.

### 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnllyd ag unrhyw fusnes oedd am gael ei ystyried yn y cyfarfod.

### 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd Ddydd Iau 11 Ebrill, 2013.

Materion yn codi:-

5. Adroddiad Cynnydd Chwarterol y Cynllun Corfforaethol: Chwarter 3 2012/13 – Yn dilyn y sesiwn friffio a gynhaliwyd cyn y cyfarfod am Adroddiadau Chwarterol Perfformiad y Cyngor, cytunodd y Pwyllgor bod y broses sydd wedi'i gosod yn addas ac yn briodol o heriol. Cadarnhaodd Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad i'r Aelodau y byddai'r adroddiadau chwarterol perfformiad yn cael eu cyflwyno i archwilio cyn eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei herio'n drylwyr ymhob lefel.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio byddai adroddiad cynnydd mewn perthynas â gostwng ymyl palmentydd yn cael ei gylchredeg pan fo wedi'i orffen. Eglurodd bod nodyn briffio'n manylu'r cynnydd a wnaed yn y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol yn ystod deg diwrnod cyntaf cynhadledd gyntaf amddiffyn plant wedi'u cynnwys yn y Briff Gwybodaeth a gafodd ei gylchredeg cyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Owens, eglurodd y Cydlynydd Archwilio bod eitem yn ymwneud â chynnydd datblygiad TCC yn Sir Ddinbych wedi'i chynnwys yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Hydref 2013. Byddai'r arddodiad yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu TCC y Cyngor yn dilyn peidio â pharhau a'r prosiect Cydweithio Rhanbarthol. Byddai'n amlygu'r lleihad mewn costau a'r dulliau o greu incwm gan ddarparu TCC yn deg ledled y Sir. Cytunodd y Cydlynydd Archwilio i holi a all yr adroddiad roi manylion am gyfraniad ariannol yr Heddlu at y gwasanaeth a dadansoddiad o'r buddion ariannol/adnoddau a wireddwyd o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaeth.

***[RE i holi]***

**PENDERFYNWYD –** y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

**RHAN II**

**EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

> ***PENDERFYNWYD -*** *dan ddarpariaethau Adran 100a(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 6 MENTRAU CEFNDY

Roedd copi o adroddiad cyfrinachol gan Reolwr Gwasanaeth Gofal Iechyd/Datblygiad Busnes Cefndy, oedd yn manylu ar berfformiad Cefndy yn y gorffennol ac yn amlygu'r anghenraid am fuddsoddiad yn y dyfodol, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Darparodd y Cynghorydd R.L. Feeley fanylion i'r Pwyllgor am berfformiad Cefndy yn y gorffennol a'r presennol, targedau ar gyfer y dyfodol a'r prif sialensiau fydd o'u blaen o ganlyniad i golli cyllid Adran Gwaith a Phensiynau.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes er bod perfformiad ariannol a'r gwasanaeth wedi bod yn dda roedd cyflawni targedau Cefndy yn golygu ei fod wedi rhwystro'r gwasanaeth rhag buddsoddi yn isadeiledd y ffatri. Eglurodd y byddai'r Cabinet yn ystyried cynnig i dynnu arian wrth gefn cyfalaf y Cynllun Corfforaethol i lawr i fuddsoddi mewn offer/peirianwaith i gymryd lle'r hen offer cyfredol ym mis Gorffennaf. Mae Sir Ddinbych wedi ffurfio ymrwymiad yn ei Gynllun Corfforaethol i gefnogi ei fodolaeth yn y dyfodol drwy gymeradwyo buddsoddiad cyfalaf.

Gofynnwyd i Archwilio ystyried y canlynol am y sefydliad:-

- Eu perfformiad wrth gyflawni eu Cynllun Busnes ar gyfer 2012/13;
- Eu Cynllun Busnes ar gyfer 2013/14;
- Y risgiau a ganfuwyd mewn perthynas â lleihad cymhorthdal a chyllid Adran Gwaith a Phensiynau a'r effaith o ganlyniad ar y gweithlu a'r Cyngor; a
- Materion iechyd a diogelwch

Gweledigaeth Cefndy ar gyfer y dyfodol oedd bod yn hunangynhaliol a chadarn yn eu trefn lywodraethol. Roedd Gofal Iechyd Cefndy yn fusnes wedi'i gefnogi gan Sir Ddinbych oedd yn darparu cyflogaeth a hyfforddiant i dros 60 o bobl, ac roedd gan 45 ohonynt anabledd. Roedd manylion am hanes a chyfraniad Cefndy i gyflogaeth a hyfforddiant lleol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Yn y 5 mlynedd diwethaf mae Cefndy wedi gwrthdroi'r duedd o gynyddu dibyniaeth ar gefnogaeth ariannol Sir Ddinbych, drwy ddarparu twf masnachol ac effeithlonrwydd ariannol ac mae copi o'r Cynllun Busnes wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf roedd Cefndy wedi:

- Cynyddu perfformiad gwerthiant o dros £1 miliwn i £3.8 miliwn erbyn hyn.
- Lleihau eu dibyniaeth ar Gyngor Sir Ddinbych o £225 mil.
- Wedi bod ar darged i gyflawni'r amcan allweddol o gostio dim i'r Cyngor.
- Wedi cael cofnod ardderchog o reoli Iechyd a Diogelwch, drwy weithio gydag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a gyda phrosesau mewnol cadarn yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r sialensiau sydd o flaen y sefydliad yn awr yn effeithio ar gynaladwyedd y busnes/gwasanaeth a gallai fygwth bodolaeth Cefndy onid ydynt yn delio â hyn yn y dyfodol agos. Mae'r sialensiau hyn wedi gwaethygu'n dilyn newidiadau lles Llywodraeth y DU yn ddiweddar. Nodwyd tri opsiwn i'w hystyried gan y Pwyllgor gyda'r bwriad o ddiogelu dyfodol y busnes. Bu'r Aelodau'n ystyried yr opsiynau a phenderfynwyd argymell y dylid cefnogi Opsiwn C – oedd yn cynnig tynnu buddsoddiad cyfalaf i lawr sydd wedi'i amlinellu yng Nghynllun Corfforaethol y

Cyngor fyddai'n galluogi'r busnes ddelio â'r risgiau o'u blaenau a'u galluogi i fod yn fwy effeithlon a delio â cholli cyllid yr Adran Waith a Phensiynau ac yn y diwedd byddai'n arwain at gynaladwyedd ariannol heb gyllideb gan Sir Ddinbych.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles ei bod wedi trafod goblygiadau tynnu cyllid 'Dewis Gwaith' gyda'r AS a'r AC lleol. Eglurodd y swyddogion bod y staff sy'n cael eu cyflogi yng Nghefndy yn dod o wahanol ardaloedd yn y Sir a thu hwnt iddi. Darparwyd manylion am hysbysebu'r busnes a gwerthiant ar y we i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** -

*(a) nodi cynnwys yr adroddiad; ac*

(b) *argymell i'r Cabinet bod Opsiwn C – tynnu arian wrth gefn cyfalaf y Cynllun Corfforaethol i lawr i fuddsoddi mewn offer/peirianwaith i gymryd lle'r hen offer cyfredol – yn cael ei gymeradwyo fel y dewis a ffefrir, gyda'r bwriad o roi cymorth i'r busnes wynebu'r sialensiau o'u blaenau a bod yn fusnes sy'n gynaliadwy'n ariannol heb gyllid gan y Cyngor yn y dyfodol*.

[**SE/PG/DHL i adrodd i'r Cabinet**]

**RHAN I**

## 7 ADRODDIAD GWELLIANT BLYNYDDOL: CYNGOR SIR DDINBYCH

Roedd copi o Adroddiad Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Sir Ddinbych wedi'i gylchredeg gyda'r papurau cyn y cyfarfod. Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Gwelliant Corfforaethol yr adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth am yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol diweddaraf ar gyfer Sir Ddinbych a hwn oedd yr adroddiad rheolaethol allanol allweddol oedd yn cael ei dderbyn yn y Cyngor bob blwyddyn.

Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ynghylch pa mor dda y mae Cynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwelliant a darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif ran yr adroddiad yn cynnwys darpariaeth a hunanwerthuso gwasanaethau Sir Ddinbych mewn perthynas â 2011-12, a'r trefniadau cynllunio ar gyfer gwelliant 2012-13. Yn gyffredinol, casglodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn gweithredu eu rhaglen welliant a ni wnaeth unrhyw argymhellion newydd eleni. Ond roedd cwmpas i wella ansawdd rhai mesurau perfformiad a'r dystiolaeth y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i benderfynu ar ei effeithlonrwydd. Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion i wella a wnaed mewn adroddiadau blaenorol.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod copi drafft o’r Adroddiad Gwelliant Blynyddol wedi’i gyflwyno a’i drafod gyda’r Prif Weithredwr a bod adborth wedi’i ddarparu cyn i’r adroddiad gael ei orffen yn derfynol. Byddai’r Adroddiad Gwelliant Blynyddol yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 22 Mai 2013, ac i’r Cyngor ar 4 Mehefin 2013.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint (copi wedi’i gylchredeg yn y cyfarfod) darparodd y Cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru grynodeb manwl o’r Adroddiad Gwelliant Blynyddol oedd yn cynnwys Cyfranwyr Asesu Perfformiad 2011-12, Canfyddiadau, Casgliadau, Canfyddiadau Perfformiad, Canfyddiadau Gwella Perfformiad a Chasgliadau Cyffredinol Asesu Perfformiad. Amlygodd y Cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru'r prif feysydd canlynol yn yr adroddiad:-

- Perfformiad wedi parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau o waith y Cyngor i addasu darpariaeth gwasanaeth i ddelio â newid demograffig.
- Uchelgais y Cyngor wedi’i phwysleisio drwy osod targedau heriol.
- Estyn wedi penderfynu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o ansawdd da i blant a phobl ifanc, gyda rhagolygon da ar gyfer gwella ymhellach
- Rhaglen y Cyngor i wella ffyrdd wedi gwneud cynnydd.
- Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol wedi bod yn ddigonol. Ond, roedd cwmpas i wella ansawdd ychydig o’r dystiolaeth er mwyn pennu ei effeithiolrwydd.
- Y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddarparu rhaglen welliant.
- Roedd y trefniadau i gefnogi gwelliant yn dda gyda chysylltiadau da rhwng Cynllun Ariannol Tymor Canolog y Cyngor a’r Cynllun Corfforaethol.

Ar sail y canfyddiadau a’r casgliadau hyn ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion newydd eleni.

Cynghorodd y Cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru bod cynnydd y Cyngor wrth ddarparu tai cyngor o Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn dyddiad terfyn Llywodraeth Cymru wedi’i hadrodd yn dda yn fewnol, ond ddim yn allanol. Ychydig o adrodd a fu am berfformiad gwaith ar y cyd hefyd. Byddai mwy o adrodd am berfformiad yr ardal, yn enwedig y gwersi a ddysgwyd, yn gymorth i awdurdodau eraill wrth ystyried dechrau trefniadau ar y cyd. Un maes lle yr oedd Sir Ddinbych ar ei hôl hi o gymharu â rhai awdurdodau lleol eraill oedd derbyn taliadau uniongyrchol, ond roedd y Cyngor yn ceisio gwella eu perfformiad yn y maes hwn.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Gwelliant Corfforaethol nad oedd yr holl ddangosyddion cenedlaethol wedi’u hadrodd gan eu bod wedi canolbwyntio’n benodol ar ddangosyddion oedd yn berthnasol i flaenoriaethau’r Cyngor a’r rhai oedd yn mesur beth oedd y trigolion am ei gael. Ond, derbyniodd nad oeddent wedi defnyddio’r mesurau priodol yn rhai o’r meysydd ond teimlai y byddai’r Cynllun Corfforaethol newydd yn delio â’r mater ac amlinellodd y gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad:-

***PENDERFYNWYD*** *- derbyn Adroddiad Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a nodi sylwadau ac arsylwadau’r Archwilydd Cyffredinol*.

## 8 CWYNION PERFFORMIAD EICH LLAIS – CHWARTER 4

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, oedd yn darparu dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 4 2012/13, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg yr adroddiad ac eglurodd y cynnwys yn fanwl. Roedd perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi gwella yn y chwarter diwethaf gyda dim maes gwasanaeth wedi'u hamlygu'n GOCH yn chwarter 4. O'r 9 maes gwasanaeth oedd wedi derbyn cwynion yn chwarter 4, roedd 5 wedi ymateb i'r holl gwynion yn y targed corfforaethol. Roedd ymatebion i gwynion Cam 1 wedi eu hanfon yn unol â'r terfynau amser oedd yn welliant o'i gymharu â'r chwarterau blaenorol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd nifer y cwynion Cam 2 wedi lleihau yn ystod y chwarter ond bydd angen parhau i'w monitro yn ystod y cyfnodau nesaf. Roedd cwynion Cam 3 wedi cynyddu ym mhob chwarter o ychydig dros 2% o gwynion yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod yn Chwarter 1 i 3.5% yn Chwarter 4 a dylid adolygu'r rhain i ganfod a oedd rheswm penodol am y cynnydd ac a ellir cynnig unrhyw gymorth i'r gwasanaethau perthnasol.

Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor ym mis Chwefror 2013, bod sampl o'r adborth a gafwyd yn ystod Chwarter 4 o'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Phriffyrdd wedi'i gymryd a bod manylion y canfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Amlinellwyd manylion y gwaith a'r materion a ystyriwyd gan Is-Grŵp Gwasanaeth Cwsmer wrth ddadansoddi'r data a'r ffigyrau yn ymwneud â phroses cwynion ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd W.E. Cowie, cytunodd y swyddogion y dylid ailgylchredeg e-bost a anfonwyd i'r holl Aelodau yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau am gynhyrchu a dosbarthu calendrau dyddiadau casglu biniau.

***[JW i gadarnhau]***

Amlinellodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg gynnig i ddatblygu fframwaith cwynion newydd i'r Aelodau a bydd yr Aelodau Arweiniol yn gallu ei ddefnyddio yn ystod eu cyfarfodydd un i un gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i nodi manylion y cwynion, y rhesymau pam y'u gwnaed a'r oedi a fu wrth eu datrys. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r ymagwedd hon ac yn llongyfarch y swyddogion am yr adroddiad a'r gwelliant perfformiad wrth ymateb i'r cwynion yn ystod 2012/13.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar gefnogi'r cynnig uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi perfformiad gwasanaethau wrth ddelio â chwynion*.

[**JW/CO'G i nodi'r penderfyniad uchod**]

## 9 FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles oedd yn darparu crynodeb o effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a blaenoriaethau gwelliant, wedi'u cylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod. Bwriad copi drafft o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/2013, yn Atodiad 1, oedd darparu darlun gonest o'r gwasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r sialensiau a fu, a byddai'n amodol ar ymgynghoriad pellach a gorffeniadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn erbyn mis Gorffennaf, 2013.

Roedd crynodeb o bedair elfen y Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad:-

- Hunanasesiad a dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd
- Trywydd tystiolaeth
- Integreiddio gyda chynllunio busnes
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol

Roedd yr adroddiad yn ffurfio rhan allweddol o werthusiad perfformiad yr AGGCC Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ac roedd y gwerthusiad yn rhoi gwybodaeth i asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o Sir Ddinbych fel rhan o'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Roedd yr asesiad cyffredinol yn nodi bod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi llwyddo i wneud gwelliannau yn nhermau perfformiad ac ansawdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd manylion meysydd cynnydd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad. Roedd sialensiau mawr o flaen Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Gwasanaethau Plant ac mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg o'r sialensiau a sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb iddynt. Hysbyswyd yr Aelodau bod y farn a'r sialensiau ar ddrafft yr adroddiad wedi'u derbyn gan swyddogion Cyngor Sir y Fflint a BIPBC.

Roedd blaenoriaethau gwelliant yn yr adroddiad blynyddol yn adnabod yr angen i barhau i addasu a moderneiddio gwasanaethau er mwyn ymateb i ddisgwyliadau a gofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru. Roedd manylion nodweddion allweddol i ymagwedd y Cyngor i ailfodelu a datblygu patrymau gwasanaeth newydd i wella gwasanaethau lleol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Amlygwyd y meysydd gwelliant oedd yn cynnwys Gwasanaethau Plant, gweithio ar y cyd a sicrwydd ansawdd.

Byddai ymrwymiad y Cyngor i foderneiddio yn cynnwys buddsoddiad mwy mewn gwasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar er mwyn galluogi dinasyddion i fod yn annibynnol, yn wydn ac yn alluog. Bydd angen cefnogi'r ymagwedd gydag amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau a rhwydweithiau cefnogi y gall pobl gael mynediad atynt yn eu cymunedau eu hunain, a byddai darparu'r rhaglen yn gofyn am ddatrysiadau ar draws y cynghorau/gwasanaethau ac ar draws sectorau gan gynnwys mentrau wedi'u harwain gan y cymunedau.

Hysbyswyd yr Aelodau mai canlyniad anochel ailfodelu a datblygu gwasanaethau newydd ac ymagweddau fyddai newidiadau amhoblogaidd. Byddai canolbwynt ar wneud newidiadau sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy i

sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn derbyn gwasanaethau o'r safon orau gan ddarparu urddas mewn gofal a chanlyniadau da.

Roedd y blaenoriaethau a fanylwyd yn Fframwaith Adrodd Flynyddol y Cyngor yn cyfrannu at flaenoriaeth 4 Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor: mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu a gallant fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Bydd gweithgarwch sydd wedi'i amlygu yn yr adroddiad blynyddol yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol, ac yn elwa o gyflawni'r Uchelgais Economaidd a Moderneiddio rhaglenni'r Cyngor.

Ymatebodd y CC:MLl i gwestiwn gan y Cynghorydd W.E. Cowie a darparu manylion am y broses tâl am ddarpariaeth Gofal Cartref Preswyl fyddai'n cael ei gytuno'n flynyddol ac yn amodol ar ofynion rheolaethol. Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Owens at y cynnydd o 58% o blant sydd o dan ofal yr Awdurdod ac eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau bod y cynnydd wedi bod ar lefel genedlaethol, ac yn rhannol oherwydd y dulliau gweithredu newydd oedd ar waith yn y llysoedd. Darparwyd amlinelliad o raglen ail sefydlu Sir Ddinbych i'r Pwyllgor. Roedd manylion proses monitro'r Cyngor ar gyfer Cartrefi Gofal, ynghyd â'r safonau cenedlaethol, wedi'u darparu mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R. J. Davies.

Amlygwyd darpariaeth dwyieithog y gwasanaethau gan y CC:MLl a chyfeiriwyd at fenter sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru oedd yn cynnwys safonau gwaith a fframwaith strategol yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Eglurodd bod rhai meysydd ble y mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn heriol a chyfeiriwyd at y gwaith a wnaed gan Grŵp Strategaeth yr Iaith Gymraeg.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD –** derbyn yr adroddiad a chefnogi*:-

- *hunanasesiad y Cyfarwyddwr o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych.*
- *blaenoriaethau gwelliant ar gyfer 2013/2014; a*
- *bod yr adroddiad drafft yn darparu cofnod clir o berfformiad.*

[**SE/CMcL i nodi'r penderfyniad uchod ac adrodd i'r Cyngor**]

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn darparu diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

Eglurodd Rheolwr y Tîm Gwelliant Corfforaethol y byddai adroddiad ynglŷn â'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei gyflwyno ddwywaith y flwyddyn, ym mis

Mehefin 2013 ac Ionawr 2014, a chytunodd yr Aelodau i dynnu'r eitem o raglen waith mis Hydref. Eglurodd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi y dylid cyflwyno'r Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ac y bydd eglurhad o rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a rôl y Pwyllgor Archwilio Perfformiad mewn perthynas â'r Gofrestr Risg yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn eu cyfarfod ar 27 Mehefin 2013.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at Adroddiad Gwybodaeth am broses newydd Her y Gwasanaeth oedd wedi'i gynnwys yn y Briff Gwybodaeth a gafodd ei gylchredeg i holl aelodau'r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau'r enwebiadau a'r penodiadau canlynol, yn amodol ar gadarnhad Aelodau unigol:-

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd – Y Cynghorydd D. Owens
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Y Cynghorydd A. Roberts
Cynllunio Busnes a Pherfformiad – Y Cynghorydd D. Owens
Gwasanaethau Oedolion a Busnes- Y Cynghorydd D. Simmons
Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg – Y Cynghorydd R. J. Davies
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Y Cynghorydd M. Ll. Davies
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden – Y Cynghorydd G. Lloyd-Williams
Adnoddau Dynol Strategol – Y Cynghorydd R. J. Davies
Addysg – Y Cynghorydd A. Roberts
Tai a Datblygu Cymunedol – Y Cynghorydd W. E. Cowie
Cyllid ac Asedau – Y Cynghorydd A. Roberts (eilydd: Y Cynghorydd D. Owens)
Amgylchedd a Phriffyrdd – Y Cynghorydd W. E. Cowie (eilydd: Y Cynghorydd M. Ll. Davies)

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, eu bod yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

[**RE i hysbysu Busnes, Cynllunio a Pherfformiad am y penodiadau**]

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Eglurodd Rheolwr y Tîm Gwelliant Corfforaethol bod y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi gofyn yn eu cyfarfod bod y tri manylyn gwybodaeth canlynol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgorau perthnasol:-

- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)- Dylid cyflwyno'r holl adroddiadau i'r Cyngor a'r Cabinet a'r Penderfyniadau Dirprwyol gan ddefnyddio'r templed adroddiad newydd a dylid atodi'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i'r adroddiad priodol.
- Llyfryn Parch – Bod y llyfryn, sy'n codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â materion amrywiaeth, yn orfodol i'r holl staff.
- Hyfforddiant Cydraddoldeb i Aelodau – Roedd y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi mynegi'r farn y dylid gwneud yr hyfforddiant Cydraddoldeb ar gyfer Aelodau Etholedig yn orfodol. Mynegodd y Cynghorydd M.Ll. Davies y farn y dylid cynnwys eglurhad am bwrpas a rheswm dros ddarparu'r sesiynau hyfforddi,

gan nodi a oedd eu presenoldeb yn orfodol, ar y gwahoddiad sy’n cael ei anfon i’r Aelodau.

***PENDERFYNWYD****- y dylid derbyn a chofnodi’r adroddiad*.

[**SP/EW i nodi’r wybodaeth uchod**]

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45pm.